Arolwg o Waith Athrawon Bro yng Nghymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2003. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 029 2044 6446

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cynnwys	Tudalen

Cefndir 1

Cyflwyniad 3

Prif ganfyddiadau 4

Rhan 1 6

Agweddau rheolaethol 6

Staffio 6
Swyddogaethau 6
Rheolaeth 7
Trefniant 9

(i) Cynradd 9
(ii) Canolfannau iaith 11
(iii) Uwchradd 12

Arfarnu gwaith athrawon bro 12

Rhan 2 14

Dylanwad yn y maes 14

Ysgolion 14
Canolfannau iaith 18
Cysylltiadau cynradd-uwchradd 19
Hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon gan athrawon bro 20
Adnoddau dysgu ac addysgu 21
Cyrsiau preswyl 21
Gweithdai iaith trwy ddrama 22

Argymhellion 22

Cefndir

1 Un o amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru yw creu Cymru ddwyieithog, ac yn ddiweddar cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes adolygiad polisi[1] o'r iaith Gymraeg, gan gynnwys y Gymraeg mewn addysg. Mae'r adolygiad polisi hwn wedi arwain at adroddiad sy'n nodi strategaethau i hyrwyddo dwyieithrwydd ac adeiladu ar gyflawniadau fel y rheiny a ddangosir gan wasanaethau athrawon bro (athrawon Cymraeg sy'n gweithio mewn ysgolion ochr yn ochr ag athrawon dosbarth a/neu mewn canolfannau iaith yw 'athrawon bro').

2 Mae gwaith athrawon bro wedi bod yn allweddol i ddatblygiad dwyieithrwydd mewn llawer o ysgolion cynradd ledled Cymru dros yr 20 mlynedd diwethaf. Sefydlwyd y tîm cyntaf yn awdurdod addysg lleol (AALl) Clwyd yn y 1970au hwyr i roi cymorth i athrawon cynradd wrth addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Ar ôl neilltuo cymorth grant, a ariannwyd gan Gymal 21 Deddf Addysg 1980, sefydlwyd timau athrawon bro yn llwyddiannus ym mhob un o siroedd Cymru.

3 Er mis Ebrill 1997, dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg, mae Bwrdd yr Iaith wedi ariannu gwaith y timau athrawon bro. Y gwasanaeth athrawon bro, canolfannau iaith, cyrsiau preswyl a phrosiectau arloesol yw prif feysydd blaenoriaeth y grant. Bydd AALlau yn cyflwyno tendrau cystadleuol am y nawdd sydd ar gael a disgwylir iddynt gyfrannu isafswm o 25% tuag at gyfanswm y gost. Mae cyfran y nawdd a neilltuwyd ar gyfer y gwaith hwn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar.

4 Neilltuir arian grant i'r AALlau yn flynyddol ar gyfer hyrwyddo addysg Gymraeg, a thrwy gytundeb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, gall yr AALlau gadw'r nawdd yn ganolog, a'u galluogi i gael mwy o reolaeth dros ei ddefnyddio. Mae'r nawdd hwn ar wahân i'r symiau a neilltuir drwy'r cynllun rheolaeth leol ysgolion (RhLY).

5 Mae rhan fwyaf yr AALlau wedi gweinyddu'r arian yn ganolog. Fodd bynnag, mae nifer ohonynt wedi dirprwyo rhywfaint o'r arian i ysgolion. Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, lle mae'r arian wedi'i neilltuo i ysgolion drwy'r cynllun RhLY, mae nifer yr athrawon bro wedi gostwng yn sgil hynny. Y rheswm am hyn yw bod ysgolion wedi defnyddio'r arian ar gyfer blaenoriaethau eraill, er enghraifft, i gael aelodau staff amser llawn. Erbyn hyn, mae'r athrawon bro yn yr AALlau hyn yn gyfyngedig i'r rheiny a leolir yng nghanolfannau iaith yr AALlau, a chânt eu talu'n uniongyrchol gan yr AALlau. Neilltuwyd arian i ysgolion yn Sir Benfro hefyd, ond cytunodd ychydig dros hanner yr ysgolion yno i brynu gwasanaethau athrawon bro trwy gyfrwng cytundeb lefel gwasanaeth.

[1] Ein Hiaith: Ei Dyfodol. Pwyllgor Diwylliant ac Addysg a Dysgu Gydol Oes. Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg 2002

6 Mae gwahaniaeth clir rhwng yr hyn sy'n cael ei ariannu gan y grant ar gyfer hyrwyddo addysg Gymraeg, a'r hyn sy'n cael cymorth y grant ar gyfer cynnal addysg a hyfforddiant (GEST) a neilltuir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er bod y ddau grant yn cynnal ei gilydd. Er enghraifft, mae hyfforddiant GEST yn rhoi cyfle i athrawon nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg ar gyrsiau mewn swydd a gynhelir gan athrawon ymgynghorol, ac mae hyn yn gymorth iddynt addysgu Cymraeg yn eu dosbarthiadau. Mae'r arian grant ar gyfer hyrwyddo addysg Gymraeg yn canolbwyntio ar gynorthwyo addysgu Cymraeg i ddisgyblion yn fwy uniongyrchol, yn yr ystafell ddosbarth, drwy'r gwasanaeth athrawon bro.

7 Ceir rhai enghreifftiau lle mae'r gwariant ar athrawon bro yn dod o ddwy ffynhonnell grant. Yn yr achosion hynny, bydd athrawon yn gwneud cyfuniad o swyddogaethau yn unol â gofynion y grant.

Cyflwyniad

8 Mae'r adroddiad hwn yn arfarnu dylanwad athrawon bro ar ansawdd a safonau darpariaeth Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith, mewn ysgolion cynradd yn bennaf. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos rhywfaint o'r arfer da a welwyd yn ystod yr arolwg, ar ffurf astudiaethau achos. Bwriad yr astudiaethau achos hyn yw cynorthwyo AALlau i ddatblygu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan athrawon bro, a chynorthwyo athrawon bro yn eu gwaith o godi safonau mewn Cymraeg.

9 Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar arolwg a gynhaliwyd yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2002 gan dîm o arolygwyr Estyn a fu'n ymweld â phob un o'r 22 AALl yng Nghymru i drafod gwaith a rheolaeth athrawon bro gyda'r swyddogion perthnasol, ac arsylwi gwaith mewn ysgolion a chanolfannau iaith ac ar gyrsiau hyfforddiant mewn swydd. Trefnwyd yr ymweliadau hyn gennym i osgoi dyblygu diangen wrth ymweld ag AALlau sy'n darparu gwasanaeth athrawon bro mewn partneriaeth â'i gilydd.

10 Archwiliwyd ystod o ddogfennau gennym, gan gynnwys adroddiadau AALl ar dimau athrawon bro a chanllawiau a deunyddiau amrywiol a gynhyrchwyd gan y timau eu hunain. Ni arsylwyd gwaith athrawon bro yng ngwersylloedd yr Urdd na'u gwaith mewn perthynas ag addysg mewn theatr fel rhan o'r arolwg hwn.

11 Mae canfyddiadau'r adroddiad yn tynnu hefyd ar dystiolaeth arolygiadau ysgol Adran 10 ac arolygiadau diweddar AEM o Gymraeg fel pwnc. Hefyd, mae'r adroddiad wedi defnyddio adroddiadau ar awdurdodau y bu Estyn a'r Comisiwn Archwilio yn arolygu'u gwasanaeth athrawon bro fel rhan o'r Adolygiad Gwerth Gorau yng Nghymru.

12 Bydd AALlau yn defnyddio teitlau gwahanol i adlewyrchu union natur neu bwyslais y swyddogaethau y bydd athrawon bro yn eu gwasanaethu. Er hwylustod, bydd pob un o'r termau hyn yn cael eu cynnwys gan y term 'athrawon bro' at ddibenion yr adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

13 Mae maint timau athrawon bro yn amrywio'n fawr rhwng yr awdurdodau gwahanol. Mae rhai timau llawer yn rhy fychan i wasanaethu'r AALlau mwy, yn enwedig yr AALlau hynny sydd â'r anghenion mwyaf o ran gwella safonau mewn Cymraeg fel ail iaith.

14 Mae'n gostus iawn, ac nid yw'n cynnig gwerth da am arian bob tro, i gynnig yr un gwasanaeth athrawon bro a'r un dyraniad adnoddau i bob ysgol o fewn awdurdod. Mewn rhai awdurdodau, bu targedu rhai ysgolion gyda mwy o gymorth nag eraill yn fwy effeithiol, yn unol ag amcanion Cynllun Addysg Iaith Gymraeg yr awdurdod.

15 Mae rhan gan athrawon bro wrth gynorthwyo ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg i ddatblygu dwyieithrwydd hwyr-ddyfodiaid[2] sy'n siarad Saesneg yn unig. Byddant yn eu cynorthwyo trwy'r broses trosglwyddo ieithyddol i'w hamgylchedd newydd. Cyflawnir hyn yn bennaf, ond nid yn unig, yn y canolfannau iaith Cymraeg. Mae cyrsiau yn y canolfannau yn cynorthwyo hwyr-ddyfodiaid i ymgyfarwyddo â iaith eu hysgolion newydd. Mae modelau'r ddarpariaeth yn y canolfannau yn amrywio ar draws Cymru, ond y cwrs dwys tymor llawn sy'n llwyddo orau.

16 Mae rhan gan athrawon bro wrth gynorthwyo ysgolion i weithredu'n llawn gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cymraeg. Mewn rhai awdurdodau, neu rannau ohonynt, mae cyfraniad athrawon bro yn hanfodol i gyflawni hyn. Mae athrawon bro wedi cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau athrawon dosbarth tuag at y Gymraeg. Mae llawer o'r athrawon dosbarth hyn yn ddysgwyr eu hunain sy'n addysgu Cymraeg am y tro cyntaf.

17 Mae athrawon bro yn cyfrannu'n dda tuag at godi safonau mewn Cymraeg. Fodd bynnag, ni allant ddarparu'r lefel gymorth sydd ei hangen bob tro i godi safonau'n sylweddol yng nghyfnod allweddol 2, yn sgil diffyg amser ac adnoddau dynol. Mae tystiolaeth arolygiad yn dangos mai Cymraeg fel ail iaith yw un o bynciau cyfnod allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol lle mae'r safonau isaf.

18 Mae athrawon bro yn cael cryn ddylanwad ar ledaenu dulliau da o addysgu Cymraeg. Mae eu cyfraniad yn arbennig o effeithiol lle bydd athrawon dosbarth yn chwarae rhan weithgar yn y gwersi, a lle gosodir targedau ar eu cyfer i gyflawni rhwng ymweliadau. Nid yw hyn yn digwydd yn ddigon cyson. Mae athrawon sy'n siarad Cymraeg yn dda weithiau'n dibynnu gormod ar athrawon bro i addysgu Cymraeg.

19 Mae athrawon bro yn rhoi cymorth da yn yr ystafell ddosbarth i athrawon sy'n dysgu'r iaith. Maent yn cymell athrawon ac yn eu cynorthwyo i ddod yn gwbl gyfrifol am addysgu Cymraeg yn eu dosbarthiadau. Mae'r dasg hon yn her aruthrol, yn enwedig gan fod amser cyswllt athrawon bro yn gyfyngedig yn aml.

[2] hwyr-ddyfodiaid : disgyblion sy'n symud i dalgylchoedd ysgolion Cymraeg o ysgolion cyfrwng Saesneg ac sy'n gallu siarad Saesneg yn unig.

20 Mae athrawon bro yn cyfrannu'n dda at gyrsiau hyfforddiant canolog yr AALl a chyrsiau ysgolion ar agweddau ar fethodoleg. Mae'r cyrsiau hyn yn arbennig o lwyddiannus wrth gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth athrawon dosbarth o'r modd i wella'u haddysgu. Maent hefyd yn cynorthwyo cydlynwyr iaith ysgolion i gynllunio cymorth ar gyfer y Gymraeg yn fwy effeithiol.

21 Mae athrawon bro yn gynhyrchiol iawn wrth gynhyrchu cynlluniau gwaith model ac ystod o adnoddau, gan gynnwys deunyddiau amlgyfrwng. Mae ysgolion yn ddibynnol iawn ar y rhain, yn arbennig lle addysgir Cymraeg fel ail iaith. Nid wneir digon o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar raddfa genedlaethol i rannu adnoddau, syniadau a chynlluniau ar draws Cymru.

22 Mae athrawon bro yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo prosiectau arloesol, yn enwedig i hwyluso'r dilyniant rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

23 Mae athrawon bro yn darparu cyrsiau iaith preswyl effeithiol ar gyfer disgyblion Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith, sy'n cynorthwyo'u gallu mewn Cymraeg ac yn ehangu'r canfyddiad o ddiwylliant Cymru.

24 Roedd bron pob un o'r gwersi enghreifftiol gan athrawon bro a arsylwyd yn ystod yr arolwg yn foddhaol neu'n well. Roeddynt yn dda yn aml, ac yn dda iawn weithiau. Roedd ansawdd yr addysgu gan athrawon bro yn y canolfannau iaith yn foddhaol o leiaf, ac yn dda yn bennaf. Roedd pob sesiwn hyfforddiant athrawon bro yn dda neu'n dda iawn.

25 Mae gan fwyafrif helaeth yr AALlau system glir ar gyfer rheoli perfformiad y timau athrawon bro. Fel arfer mae athrawon bro yn rhan annatod o strategaeth gyffredinol yr awdurdodau ar gyfer gwelliant ysgolion. Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais ar arfarnu dylanwad athrawon bro ar y safonau gwaith ac ansawdd yr addysgu mewn ysgolion a chanolfannau iaith.

Rhan 1

Agweddau rheolaethol

Staffio

26 Mae tua 150 o athrawon bro yng Nghymru drwyddi draw. Mae 58 o swyddi'n cael eu hariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae maint timau athrawon bro yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai timau'n rhy fach i wasanaethu awdurdodau mawr lle mae'r gofynion yn uchel iawn, yn enwedig mewn Cymraeg fel ail iaith.

27 Mae rhan fwyaf yr athrawon bro yn athrawon amser llawn. Mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn athrawon cymwys sydd ag arbenigedd a/neu brofiad addas.

28 Bydd athrawon bro yn yr amryw AALlau yn dod ynghyd yn aml i rannu profiadau, cynhyrchu deunyddiau a thrafod agweddau gwahanol ar y gwaith. Mewn awdurdodau lle byddant yn gweithredu ar draws siroedd, byddant yn cynnal cyfarfodydd traws-sirol yn rheolaidd sy'n gymorth i unodi anghenion cyffredin.

29 Ni fydd athrawon bro yn cael digon o gyfleoedd i gael eu diweddaru ar agweddau methodoleg addysgu iaith. Mae rhai athrawon bro yn gallu ymweld ag AALlau eraill i arsylwi athrawon tebyg wrth eu gwaith. Mae hyn yn gymorth iddynt ddatblygu dulliau addysgu newydd.

30 Bydd rhan fwyaf yr athrawon bro yn mynychu cynhadledd genedlaethol flynyddol. Mae hyn yn gyfle da iddynt gyfarfod fel grŵp, cyfnewid syniadau a phrofiadau a gwrando ar gyflwyniadau gan arbenigwyr ym maes addysgu ail iaith a datblygu dwyieithrwydd.

31 Mae athrawon bro o'r amryw awdurdodau yn cael eu cynrychioli ar grwpiau gweithio'r rhaglen genedlaethol Gymraeg ar gyfer hyfforddiant mewn swydd, ac yn cynorthwyo i lunio arweiniad gwerthfawr i athrawon ar ffurf pecynnau hyfforddi ar agweddau amrywiol addysgu iaith.

Swyddogaethau

32 Prif swyddogaeth athrawon bro yw cynnig cymorth ymarferol i athrawon yn eu hystafelloedd dosbarth i'w cynorthwyo i addysgu Cymraeg i'w disgyblion a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer addysgu pynciau eraill. Gall hyn olygu ymweld ag ysgol mewn rôl ymgynghorol yn ogystal ag addysgu ochr yn ochr â'r athro/athrawes, yn yr ystafell ddosbarth.

33 Mewn nifer o AALlau, neu mewn ardaloedd penodol o fewn AALl lle mae canran uchel o athrawon nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, bydd yr athrawon bro eu hunain fel arfer yn gwneud llawer o'r addysgu. Maent yn gweithredu fel athrawon cylchynol ac yn ceisio cael athrawon dosbarth i ymuno a chynnal y gwaith rhwng ymweliadau. Mae nifer cynyddol o athrawon dosbarth yn ymateb yn dda ac yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon bro. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo gweithgareddau grŵp i roi cyswllt fwy dwys â'r iaith i ddisgyblion.

34 Fodd bynnag, mewn llawer o ddosbarthiadau, mae'r cynnydd wrth gynnal ac ymestyn y gwaith yn araf pan na fydd athrawon bro yn bresennol. I raddau helaeth mae hyn yn sgil diffyg hyder ar ran yr athrawon, ac oherwydd mai adnoddau iaith cyfyngedig sydd ganddynt. Mewn rhai AALl, mae swyddogaeth athrawon bro wedi datblygu'n briodol dros y blynyddoedd. Mae eu rôl wedi newid o rôl athrawon cylchynol i ymgynghorwyr athrawon. Y rheswm am hyn yw bod mwy o athrawon dosbarth wedi dysgu Cymraeg. Mewn AALlau eraill, nid yw rôl yr athrawon bro wedi datblygu yn y modd hwn, ac mae'n gyfyngedig i'r rôl gylchynol yn bennaf.

35 Mewn rhai AALlau, bydd athrawon bro hefyd yn trefnu ac yn helpu i gynnal rhaglen gymorth ddwys ar gyfer disgyblion sy'n hwyr-ddyfodiaid, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, er mwyn rhoi cyfle gwell iddynt elwa'n llawn o'r addysg Gymraeg a dwyieithog a gynigir yn eu hysgolion eu hunain. Gan fwyaf, digwydd hyn yn y canolfannau iaith, sydd wedi'u sefydlu at y diben hwn a lle bydd disgyblion o ysgolion gwahanol yn dod ynghyd am gyfnod penodedig i ddysgu Cymraeg. Mewn nifer o'r canolfannau hyn, bydd athrawon bro hefyd yn darparu cymorth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 o ysgolion neu ffrydiau Cymraeg, i wella safonau eu Cymraeg a chynyddu cyfran y disgyblion a allai fynd ymlaen i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3.

36 Swyddogaeth arall athrawon bro yw trefnu cyrsiau preswyl ar gyfer disgyblion, fel bod modd i blant sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith gael cyswllt dwys â'r iaith dros gyfnod estynedig.

37 Mae swyddogaethau eraill athrawon bro yn cynnwys trefnu cyrsiau hyfforddiant ar fethodoleg, neu gyfrannu atynt, a darparu deunyddiau addysgu a dysgu amrywiol. Yn aml byddant yn cynorthwyo ysgolion trwy ddatblygu polisïau a chynlluniau gwaith, gan gynnwys polisïau ar gyfer addysgu Cymraeg ar draws y cwricwlwm a chynlluniau gwaith ar gyfer Y Cwricwlwm Cymreig. Maent hefyd yn cynorthwyo i fonitro ac arfarnu cynnydd disgyblion. At hynny, maent yn ymwneud ag amryw fentrau neu brosiectau, er enghraifft, bydd rhai athrawon bro yn datblygu cysylltiadau rhwng Blynyddoedd 6 a 7 i hyrwyddo'r dilyniant mewn medrau'r iaith Gymraeg.

Rheolaeth

38 Mae'r rhan fwyaf o AALlau yn gyfrifol am reoli a threfnu eu timau athrawon bro eu hunain. Mae'r lleill yn cydweithredu i raddau amrywiol, a lle digwydd y cydweithredu hwn, mae'n effeithiol yn gyffredinol.

39 Mae gan fwyafrif helaeth yr AALl system glir o reolaeth ac atebolrwydd ar gyfer eu gwasanaeth athrawon bro. Fel arfer mae'r timau'n atebol i'r ymgynghorwyr Cymraeg yn strwythur rheoli'r awdurdod. Mewn nifer o achosion, y cydlynydd neu'r rheolwr gwasanaeth yw'r ymgynghorydd Cymraeg.

40 Yng Ngheredigion, mae bwrdd llywodraethol yn rhoi cyfeiriad effeithiol i'r gwasanaeth. Bydd yn cyfarfod unwaith y flwyddyn o leiaf i ddatblygu strategaeth, unodi anghenion ac arfarnu'r gwasanaeth.

41 Mae gan rhan fwyaf y timau athrawon bro athro neu athrawon sydd â phwynt/iau rheoli a/neu gyfrifoldebau eraill. Mewn pedwar AALl, mae graddfa gyflog pob athro bro wedi'i gwella. Ar brydiau, mae graddfa gyflog un o'r athrawon bro o leiaf o fewn AALl yn cael ei gwella i statws ymgynghorydd-athro. Mewn nifer fach o achosion, nid yw'n glir a oes cyfrifoldebau ychwanegol gan yr athrawon bro sydd ar gyflog gwell. Nid yw rhai AALlau yn cynnig gwelliant, ac mae rhai yn ei chael hi'n anodd denu staff o ganlyniad i hynny. Mae rhywfaint o anghysondeb yn statws ac amodau gwasanaeth athrawon bro felly, ac ni ellir cyfiawnhau'r anghysondeb hwn bob tro gan y cyfrifoldebau gwahanol sydd ganddynt.

42 Yn gyffredinol mae AALlau yn cydnabod swyddogaeth y gwasanaeth athrawon bro yn eu polisïau, eu strategaethau a'u cynlluniau, a phennir nodau ac amcanion priodol ganddynt. Mae'r gwasanaeth athrawon bro yn chwarae rhan bwysig wrth gynorthwyo AALlau fodloni'r targedau a osodir yn eu cynlluniau strategol addysg (CSA), a'u Cynlluniau Addysg Iaith Gymraeg mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd. Mewn llawer o awdurdodau lle mae nifer fach yn unig o athrawon rhugl eu Cymraeg – er enghraifft, Torfaen, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd – mae athrawon bro yn chwarae rôl allweddol wrth gyflawni'r targedau hyn. Mewn rhai achosion prin, nid yw strategaeth gyffredinol yr AALl ar gyfer y gwasanaeth athrawon bro yn ddigon eglur, er enghraifft ym Mro Morgannwg. Yn gyffredinol, nid yw AALlau yn rhoi digon o sylw i'r modd y gall y gwasanaeth athrawon bro gysylltu â strategaethau i hyrwyddo dwyieithrwydd yn y gymuned.

43 Mae gan wasanaeth yr athrawon bro ran allweddol i'w chwarae mewn strategaethau AALl i godi safonau llythrennedd. Yn Sir Benfro, mae'r gwasanaeth a'r strategaeth llythrennedd yn rhannu'r un nod ac amcanion. Trwy gynllunio yn y modd hwn, mae'r gwasanaeth yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at strategaeth gyffredinol yr AALl.

44 Mae nifer o fentrau traws-sirol defnyddiol hefyd. Er enghraifft, mae cydweithredu rhwng yr athrawon bro yng Nghaerdydd, Powys a'r Gwasanaeth Cefnogi ac Arolygu Addysgu (gwasanaeth ymgynghori de ddwyrain Cymru) wedi arwain at set gynhwysfawr o ganllawiau ar gyfer ysgolion ar y modd i gynhyrchu strategaeth llythrennedd ysgol gyfan. Mae athrawon bro hefyd wedi chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo i roi'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ar waith.

45 Mae rhai athrawon bro yn ymwneud yn bennaf â darparu cyrsiau ar gyfer disgyblion sy'n hwyr-ddyfodiaid mewn dalgylch lle mae canolfan iaith. Fel arfer mae'r canolfannau hyn ar gampws ysgol gynradd neu uwchradd. Maent yn gweithredu'n annibynnol i'r ysgolion i raddau helaeth. Mae pennaeth yr ysgol, pennaeth y ganolfan a'r ymgynghorydd Cymraeg yn cydweithredu wrth drefnu'r cyrsiau. Mae gan nifer o ganolfannau fyrddau llywodraethol ar wahân hefyd.

Trefniant

(i) Cynradd

46 Mae ymweliadau athrawon bro ag ysgolion yn seiliedig yn bennaf ar yr egwyddor o gynnig cymorth cyfartal i bob ysgol. Fodd bynnag, gall hyn fod yn gostus iawn ac nid yw'n cynnig gwerth da am arian bob tro. Fel arfer, bydd clwstwr o ysgolion cynradd yn cael eu neilltuo ar gyfer pob aelod o'r tîm athrawon bro. Ymwelir â phob ysgol yn rheolaidd, bob wythnos neu bythefnos. Mae faint o amser a neilltuir ar gyfer ymweliadau yn dilyn fformiwla a bennir gan faint yr ysgol, nifer y dosbarthiadau a chyfrwng iaith yr ysgol neu'r uned. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth hon yn llwyddiannus bob tro gan fod y cymorth yn rhy wasgarog ac nid yw'n cael ei dargedu'n ddigon effeithiol i fodloni anghenion. Mewn rhai awdurdodau, mae targedu ysgolion yn unol â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Addysg Iaith Gymraeg yr awdurdod yn fwy effeithiol. Mae mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi nawr i fodloni anghenion penodol lle maent yn bodoli.

47 Mae clwstwr AALl Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr a Chaerffili yn darparu cymorth ar ddwy lefel yn yr ysgolion ail iaith: cymorth dwys a chymorth dilynol. Mae pob athro bro yn gyfrifol am tua 32-34 o ysgolion. Er gwaethaf ymdrechion gorau athrawon bro, ni all fod digon o gyswllt ag ysgolion i wella safonau'n sylweddol pan fydd y baich gwaith mor uchel.

48 Mae'n ddigon cyffredin i athrawon bro dargedu cyfnodau allweddol neu flynyddoedd penodol o fewn yr ysgolion maent yn eu gwasanaethu. Yn sir Benfro, mae'r ffocws ar godi safonau addysgu a dysgu mewn Cymraeg mewn ysgolion neu ddosbarthiadau Categori B (lle mai Cymraeg yw'r cyfrwng yn y feithrinfa ac yng nghyfnod allweddol 1, gyda datblygiad parhaus Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2). Mae hyn wedi arwain at ddefnydd mwy o'r Gymraeg fel cyfrwng. O ganlyniad, mae disgyblion yn symud o'r rhaglen ail iaith i'r rhaglen iaith gyntaf. Mae hyn yn dangos y llwyddiant y gellir ei gyflawni pan fydd yr AALl, yr ysgolion a'r athrawon bro yn rhannu'r un nod.

49 Yn aml, mewn awdurdodau lle mae rhan fwyaf yr ysgolion yn addysgu Cymraeg fel ail iaith, mae llai o athrawon bro yn ymwneud ag ysgolion neu unedau lle mai Cymraeg yw'r prif gyfrwng. Gall eu graddfa ymweld ag ysgolion neu unedau cyfrwng Cymraeg amrywio'n sylweddol. Weithiau, cyswllt achlysurol yn unig sydd â llawer o'r ysgolion hyn, ac nid yw hyn yn cael digon o effaith ar safonau.

50 Mae Powys wedi cynnal archwiliad o allu athrawon mewn Cymraeg er mwyn gweld lle y gall fod yn fwy priodol i athrawon bro ddarparu gwaith darllen gwell gyda grwpiau yn hytrach nag addysgu'r dosbarth cyfan bob tro. Mae potensial yn hyn o beth i godi disgwyliadau a symud gwaith ymlaen, a gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd sydd ar gael.

51 Bydd awdurdodau'n adolygu'u trefniadau'n rheolaidd er mwyn gwella. Er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad, mae Ceredigion bellach yn cynnig cymorth fwy dwys a mwy o amser mewn rhai ysgolion targed trwy dorri i lawr ar y teithio a wneir gan athrawon bro.

52 Mae Ceredigion yn parhau i gynnig cymorth i bob ysgol, ond mae hefyd yn targedu ysgolion penodol sydd angen cymorth ychwanegol. Dewisir ysgolion mewn cydweithrediad â'r penaethiaid a staff, ar sail meini prawf fel canlyniadau adolygiadau mewnol, arolygiadau, tasgau statudol a chyngor ymgynghorwyr cyswllt. Mae'r astudiaeth achos canlynol yn dangos canlyniad y strategaeth hon:

Cafodd 20 ysgol yn yr awdurdod gymorth ychwanegol gan aelodau'r tîm athrawon bro, h.y. bore neu brynhawn yr wythnos am dri thymor yn ychwanegol at y dyraniad arferol. Defnyddiodd pob ysgol y cymorth ychwanegol yng nghyfnod allweddol 2, gan mai yma yr unodwyd yr angen mwyaf i godi safonau mewn Cymraeg.

Ymwelodd athrawon bro â'r ysgolion i drafod a chynllunio'u gwaith gyda phenaethiaid ac athrawon dosbarth ar gychwyn bob tymor. Roedd nifer o'r ysgolion yn teimlo bod y cyfraniad hwn yn arbennig o ddefnyddiol, gan eu bod wedi dewis newid y cyfrwng addysgu a dysgu o Saesneg i Gymraeg mewn amryw o bynciau, fel daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol, gwyddoniaeth a mathemateg.

Dangosodd arfarniad yr awdurdod bod y cymorth ychwanegol wedi bod yn llwyddiant yn rhan fwyaf yr ysgolion a dargedwyd, yn enwedig lle cafwyd cydweithio. Roedd cynnydd parhaus yn nodwedd o waith disgyblion yn ystod y flwyddyn.

53 Yng nghlwstwr AALl Dinbych, Wrecsam, Y Fflint a Chonwy, bydd y tîm athrawon bro yn trafod anghenion yr ysgolion mewn Cymraeg fel ail iaith yn unigol gyda'r penaethiaid a'r cydlynwyr iaith. Yn gyffredinol, mae'r pwyslais ar roi cymorth dilynol, gwersi enghreifftiol neu gymorth i athrawon newydd. Mae'r gwasanaeth yn targedu ysgolion sydd â'r anghenion mwyaf, ac mae nifer, amlder a ffocws yr ymweliadau yn amrywio yn ôl yr angen. Mae cymorth dwys wedi'i gynllunio hefyd ar gyfer ysgolion iaith gyntaf.

54 Mae rhai awdurdodau, felly, wedi datblygu ymhellach nag eraill o ran targedu ysgolion neu ddosbarthiadau lle mae angen cymorth ychwanegol gan athrawon bro i wella safonau mewn Cymraeg. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw AALlau wedi lleoli athrawon bro mor hyblyg ag yn yr enghraifft uchod. Nid ydynt ychwaith yn gwneud digon o ddefnydd o ddata i unodi anghenion neu olrhain cynnydd disgyblion mewn Cymraeg. Nid ydynt bob amser yn gweld lle mae anawsterau penodol, a lle mae angen mwy o gymorth o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd athrawon dosbarth yn cael mwy o gymorth nag sydd ei angen arnynt, yn enwedig lle maent yn medru'r Gymraeg yn dda eu hunain.

(ii) Canolfannau iaith

55 Yn aml iawn, ceir sefyllfaoedd ieithyddol sy'n arbennig o heriol mewn llawer o'r ysgolion cynradd mewn ardaloedd Cymraeg. Mae disgyblion Saesneg sy'n symud i ddalgylch ysgol o ysgolion cyfrwng Saesneg yn ychwanegu'n fawr at yr her. Athrawon bro sy'n cymryd y prif gyfrifoldeb am integreiddio'r hwyr-ddyfodiaid hyn yn llwyddiannus i'r ysgolion, trwy eu gwaith yn y canolfannau iaith yn bennaf. Mae rhestr aros faith ar gyfer lleoedd mewn llawer o'r canolfannau iaith.

56 Mae'r model addysgu dwys yn y canolfannau iaith yn amrywio o un AALl i'r llall, ond gellir eu categoreiddio'n gyffredinol fel a ganlyn:

Model 1

57 Cwrs dwys o bum niwrnod yr wythnos am un tymor. Hwn yw'r model mwyaf effeithiol.

Model 2

58 Cwrs dau neu dri diwrnod yr wythnos dros ddau dymor neu fwy, gyda'r dyddiau eraill yn cael eu treulio yn yr ysgol gartref.

59 Ym Mhowys, lle mae nifer y disgyblion sy'n hwyr-ddyfodiaid yn amrywio, a hynny'n ei gwneud hi'n anodd cynnal canolfan iaith, bydd athrawes fro yn gweithio gyda grwpiau o hwyr-ddyfodiaid yn eu hysgolion. Mae'r dull hwn yn gymorth i gysylltu gyda gwaith y dosbarth. Ond gall y ddarpariaeth hon fod yn gostus iawn.

60 Mae gan rai awdurdodau, fel Gwynedd, Sir Ddinbych a Chonwy, drefniadau hyblyg o ran defnyddio canolfannau iaith, er enghraifft, trwy drefnu canolfannau symudol neu loeren pan fydd angen. Mae'r trefniadau hyn yn gymorth i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael lle mae'r gofyn mwyaf.

Paratoi ac ôl-ofal

61 Mae rhai athrawon bro sy'n ymwneud â hwyr-ddyfodiaid, yn Ninbych a Chonwy er enghraifft, yn cynhyrchu pecynnau gwaith clyweled i baratoi disgyblion cyn iddynt fynychu canolfannau iaith. Mae'r rhain yn fodd hwylus o roi sylfaen i ddisgyblion cyn mynd ar y cyrsiau.

62 Mae cryn amrywio yn y modd y mae AALlau yn ymateb i'r cymorth a gaiff disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd. Mae gan rai canolfannau gynllun ar gyfer cynorthwyo disgyblion mewn ysgolion wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen. Mewn achosion eraill, nid oes cymorth dilynol penodol. Mae rhai disgyblion yn cael llyfryn pontio, ac mae hyn yn hwyluso'r broses trosglwyddo i'r gymuned ysgol.

63 O dro i dro bydd canolfannau fel Caerfyrddin a Cheredigion yn cael eu defnyddio hefyd ar gyfer cyrsiau byrrach i atgyfnerthu a chodi lefelau cyflawniad dysgwyr a siaradwyr Cymraeg, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaethant yn yr iaith yn yr ysgol.

(iii) Uwchradd

64 Yn Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr a Chaerffili, mae un aelod o'r tîm athrawon bro yn gweithio bron yn gyfangwbl yn y sector uwchradd, yn rhoi cymorth i nifer fawr o ysgolion. Mae'n darparu hyfforddiant defnyddiol i benaethiaid adran a'u timau mewn nifer fawr o adrannau uwchradd ar faterion fel datblygu cynlluniau gwaith a gwella dulliau addysgu. Fodd bynnag, mae'r athrawon hyn yn aml yn arbenigwyr Cymraeg eu hunain, ac nid yw eu hanghenion mor enbyd â'r rheiny yn y sector cynradd.

Arfarnu gwaith athrawon bro

65 Yr AALlau eu hunain a Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n gwneud y swyddogaeth hon. Bydd AALlau yn darparu adroddiad hunan-arfarniad ar waith eu gwasanaethau athrawon bro i Fwrdd yr Iaith bob blwyddyn. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau hyn yn fanwl a chynhwysfawr. Mae'r rhan fwyaf yn cael eu cefnogi gan dargedau a'r defnydd o ddata meintiol ac ansoddol. Mae rhai adroddiadau, fel adroddiad AALl Caerdydd, yn cynnwys adolygiad manwl a thrylwyr o Gymraeg fel pwnc, ac maent yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer arfarnu cynnydd a chytuno ar y camau nesaf. Mae rhai adroddiadau yn ddisgrifiadol yn bennaf, ac mae hyn yn eu gwneud yn llai defnyddiol gan nad ydynt yn unodi meysydd ar gyfer gwelliant.

66 Yn eu cynigion i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am arian grant, bydd AALlau yn cynnwys targedau perfformiad manwl a rhestrau o gynhyrchion penodol sy'n eu galluogi i fesur eu llwyddiant wrth gyflawni amcanion grant. Mae hyn wedi arwain awdurdodau tuag at osod targedau mwy penodol ar gyfer athrawon bro. Bu o gymorth hefyd wrth fesur llwyddiant ac unodi anghenion. Nodwedd dda arall yw gosod targedau rhifiadol ar gyfer cyflawniadau disgyblion. Mae hyn yn gymorth i arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth o ran cynnydd disgyblion.

67 Mae partneriaid, penaethiaid ac athrawon dosbarth bob un ohonynt yn cymryd rhan briodol mewn arfarniadau. Mae'r arfarniadau gorau'n asesu effaith gwersi enghreifftiol a chyrsiau hyfforddiant ar safonau gwaith ac ansawdd addysgu. Mae arolygon o farnau athrawon cyfranogol ar ansawdd cyrsiau hyfforddiant a'r cymorth y bydd athrawon bro yn ei roi mewn ysgolion, yn dangos bod athrawon o'r farn eu bod yn dda, ac yn dda iawn weithiau. Fodd bynnag, yn Sir y Fflint, lle bu'r gwasanaeth athrawon bro yn destun adolygiad Gwerth Gorau yn ddiweddar, mae'r ymateb i holiaduron arolwg yn dangos bod athrawon eisiau mwy, yn enwedig mewn perthynas ag asesu disgyblion. Dywedwyd nad oedd ganddynt ddigon o amser i drafod materion fel hyn gydag athrawon bro.

68 Yn gyffredinol, mae ymgynghorwyr iaith yn rheoli perfformiad aelodau'r tîm athrawon bro yn dda. Ymwelant ag ysgolion a chanolfannau iaith i'w harsylwi wrth eu gwaith. Hefyd, mae athrawon bro yn rhoi pwyslais cynyddol ar hunan-arfarniad lle bydd timau neu grwpiau gweithio'n dod ynghyd i ddadansoddi'u cyfraniad.

69 Yng Ngheredigion, sefydlwyd grŵp gweithio mewnol i adolygu'r gwasanaeth athrawon bro. Mae canlyniadau hynny wedi arwain at ddulliau gweithio mwy effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid oes digon o arfarnu ffurfiol o effaith athrawon bro ar ansawdd a safonau mewn ysgolion, ac nid oes digon o ddefnydd o arfarnu i benderfynu ar flaenoriaethau.

Rhan 2

Dylanwad yn y maes

Ysgolion

(i) Cymraeg fel ail iaith

70 Mae rhan fwyaf o wersi'r athrawon bro a welwyd yn foddhaol. Yn aml maent yn dda, ac yn dda iawn weithiau. Nifer fach sy'n anfoddhaol.

71 Ar y cyfan, mae perthynas dda a chynhyrchiol rhwng athrawon bro, ysgolion ac athrawon dosbarth. Bydd athrawon bro yn cydweithredu gydag athrawon dosbarth i gyflwyno gwersi enghreifftiol a hyrwyddo gwaith grŵp a phâr. Mae athrawon bro yn cynorthwyo disgyblion i gyflawni safonau uwch mewn siarad, darllen ac ysgrifennu, trwy ddefnyddio gweithgareddau ymarferol yn aml.

72 Yn gyffredinol, mae athrawon bro yn addysgu'u gwersi'n dda. Defnyddiant wahanol adnoddau argraffu ac adnoddau clyweled yn effeithiol. Maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb mawr yn y gwaith, gan adeiladu ar hyder athrawon dosbarth sy'n dysgu'r iaith eu hunain. Dônt â chyfoeth o syniadau, dulliau a sbardunau i'r ystafell dosbarth, a rhônt fodelau a chanllawiau da i athrawon. Maent yn cyflwyno agweddau ar bynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cymell disgyblion ac yn cynyddu'u diddordeb yn y gwaith. Mae eu cyfraniad yn arbennig o effeithiol pan fydd athrawon yn ymuno â nhw i chwarae rhan weithgar yn y gwersi enghreifftiol. Maent yn effeithiol hefyd pan fyddant yn annog athrawon i osod targedau ar gyfer y dosbarth rhwng ymweliadau. Lle mae gwersi athrawon bro yn disgyn islaw'r trothwy ansawdd, y rheswm am hynny yw eu bod yn methu â bodloni'r ystod llawn o anghenion iaith yn effeithiol.

73 Cyflwynwyd y wers ganlynol gan athrawes fro i ddisgyblion Blwyddyn 5/6 mewn ysgol iau fawr mewn ardal Seisnig o Wrecsam, ac mae'n dangos arfer da iawn. Mae hon yn sefyllfa lle mae'r athro dosbarth wedi derbyn hyfforddiant AALl, ac mae'n gyfrifol am addysgu Cymraeg i'w ddosbarth. Nod ymweliad yr athrawes fro yw ychwanegu at y gwaith sylfaen yn y prif gwrs, a dangos i'r athro sut i wella gafael y disgyblion ar y Gymraeg. Mae'r athrawes fro yn darparu model addysgu da ac yn cynnwys yr athro dosbarth yn llawn yn y gweithgareddau, gan ei alluogi i fynd â'r gwaith yn ei flaen.

Amcanion y wers oedd datblygu gallu disgyblion i siarad yn rhydd, adolygu gwaith blaenorol a chyflwyno patrymau iaith a geirfa newydd.

Ar y cychwyn, cyfarchodd yr athrawes fro unigolion yn y dosbarth trwy ofyn iddynt beth oedd eu henwau a sut roeddynt yn teimlo. Cafodd gymorth un disgybl i wneud hynny, 'Helpwr heddiw'. Yna aeth ymlaen i adolygu'r pum synnwyr, gan ddefnyddio'r patrwm 'Beth wyt ti'n hoffi ei weld/flasu/fwyta? Anogwyd y disgyblion i roi ymatebion estynedig gan ddefnyddio cysyllteiriau. Wedi hynny, rhannwyd y dosbarth yn barau a gofynnwyd iddynt ymarfer dialogau, gan ddefnyddio'r patrymau a ddysgwyd yn y dosbarth hyd yma. Yna, gofynnodd i'r dosbarth i ddarllen sgript wedi'i baratoi yn dawel iddynt hwy eu hunain, sef dialog rhwng dau blentyn yn cyfarch ei gilydd ac yn gofyn i'w gilydd beth oeddynt yn ei hoffi, a'r hyn oedd yn gas ganddynt. Ar ôl ymarfer y patrymau newydd gyda'r dosbarth, rhoddodd gyfle i'r disgyblion eu rhoi ynghyd, gan ddefnyddio cysyllteiriau. Addaswyd y sgript ganddynt hefyd, trwy newid rhai manylion. Y cam nesaf oedd gofyn i'r disgyblion weithio mewn parau neu grwpiau bychain i gynhyrchu'u fersiwn ysgrifenedig eu hunain o'r sgript. Fe'u hanogwyd i lunio drafft bras a'i goethi erbyn ei hymweliad nesaf. I gloi, gofynnodd yr athrawes fro i rai disgyblion ddarllen eu gwaith cyn adolygu'r elfennau newydd a ddysgwyd yn y wers.

74 Mae'r addysgu a'r dysgu a ddisgrifir uchod yn cynnwys llawer o nodweddion da:

- roedd y wers wedi'i chynllunio'n ofalus;
- roedd cydbwysedd priodol rhwng adolygu, cyflwyno, atgyfnerthu a defnyddio iaith:
- cyflwynwyd eitemau newydd yn effeithiol trwy adeiladu ar waith blaenorol;
- roedd disgyblion yn gallu cymhwyso'r iaith a ddysgwyd mewn gwersi blaenorol mewn sefyllfa newydd;
- roedd y sgript yn rhoi model da i'r disgyblion o'r modd i gynnal eu sgyrsiau eu hunain; a
- llwyddodd yr athrawes fro i gynnwys yr athro dosbarth yn y gweithgareddau pan gododd y cyfle.

75 Mae athrawon bro yn cynorthwyo i godi safonau mewn Cymraeg yn y pwynt cyflwyno. Fodd bynnag, mae cynnal cynnydd disgyblion drwy'r ysgol yn parhau yn dipyn o her. Mae'r her yn fwy fyth pan fydd amser cyswllt athrawon bro yn gyfyngedig, a phan fydd athrawon eu hunain yn ddysgwyr Cymraeg newydd.

76 Mae athrawon bro yn cynnig cymorth da yn yr ystafell ddosbarth i athrawon sy'n dysgu'r iaith eu hunain. Yn yr enghraifft ganlynol, mae'r athrawes ddosbarth wedi'i hyfforddi mewn methodoleg iaith ar gyrsiau AALl Sir Benfro. Mae'r cydweithrediad rhyngddi hi a'r athrawon bro, a'r strategaethau a fabwysiedir yn y dosbarth, wedi ei pharatoi hi'n dda i fod yn gwbl gyfrifol am Gymraeg yn ei dosbarth:

Mae'r cynnydd da a wnaeth yr athrawes ddosbarth feithrin/derbyn ar gyrsiau'r awdurdod wedi arwain at yr athrawes fro yn rhoi'r gorau i'w rôl arwain. Yn y wers, gwnaeth yr athrawes ddosbarth ddefnydd effeithiol o becyn adnoddau y bu'n cynorthwyo i'w lunio. Roedd y cyflwyniad yn dda, ynghyd â'r gweithgareddau grŵp dilynol. Rôl yr athrawes fro oedd cynorthwyo gwaith grŵp, ac yn arbennig, cyflwyno disgyblion i'r gwaith cyfrifiadur sy'n atgyfnerthu'u datblygiad iaith.

Dangosodd y disgyblion safonau da iawn mewn Cymraeg. Gwelwyd hwy'n ymateb yn gyflym i gwestiynau'r athrawes, yn chwarae gêmau'n annibynnol yn Gymraeg, yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml ac yn mwynhau darllen gyda'i gilydd. Roeddynt yn gallu cynnig rhai sylwadau'n ddigymell. Cawsant gyfle hefyd i wrando a darllen mewn grwpiau gyda chymorth ffonau clust, i'w galluogi i ymgyfarwyddo â'r llyfrau. Roedd disgyblion ar bob lefel gallu, gan gynnwys un disgybl ag anghenion addysgol arbennig, yn ymuno yn y gêm bwrdd, gan fwynhau chwarae a dysgu gyda'i gyfoedion.

Roedd llawer o'r gwaith yn cynnwys profiadau bywyd go iawn, fel picnic, gyda bwyd go iawn. Nodwedd dda yw bod y Gymraeg yn cael ei chysylltu â phrofiadau pleserus bob tro. Mae hyn yn gymorth i ddisgyblion gofio patrymau siarad a geirfa. Defnyddir llawer o Gymraeg achlysurol drwy'r dydd yn y dosbarth. Mae ethos Cymraeg cadarnhaol yn y dosbarth. Cynhaliwyd arolygiad llawn yn yr ysgol yn ddiweddar, a barnwyd bod y safonau mewn Cymraeg naill ai'n dda neu'n dda iawn.

77 O ganlyniad i gymorth gan athrawon bro, mae llawer o athrawon dosbarth sydd wedi hyfforddi i addysgu Cymraeg fel ail iaith yn unig yn magu hyder yn raddol yn eu gallu i gyflwyno gwerth cyfrwng Cymraeg.

78 Fodd bynnag, nid yw'r cymorth yn ddigon cyson i gael effaith ddigonol ar safonau ar draws y bwrdd yng nghyfnod allweddol 2. Mae tystiolaeth arolygiad yn dangos bod Cymraeg fel ail iaith yn un o'r pynciau lle mae'r safonau ar eu hisaf yng nghyfnod allweddol 2. Mewn llawer o achosion, nid yw'n glir i athrawon pa batrymau iaith, terminoleg a geirfa y mae angen iddynt eu cyflwyno i bob grŵp blwyddyn yng nghyfnod allweddol 2. Mae addysgu Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn parhau yn her sylweddol i athrawon nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl eu hunain. Mae angen mwy o gyngor a chymorth arnynt yn amlach nag ar hyn o bryd.

79 Dros y blynyddoedd diweddar, cafodd y gwasanaeth ddylanwad ar gyflwyno Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion arbennig mewn nifer o awdurdodau. Mewn un ysgol arbennig yn Abertawe, er enghraifft, cynorthwyodd yr athrawes fro i ddatblygu polisïau, cynlluniau gwaith a rhaglenni, unodi cyfleoedd asesu a dewis deunyddiau addysgu addas. Cynorthwyodd hefyd i addysgu Cymraeg i athrawon ar ôl ysgol. Yn yr achos hwn, bu cyfraniad yr athrawes yn gymorth i'r ysgol wneud cynnydd sylweddol wrth wella dysgu disgyblion mewn Cymraeg.

(ii) Cymraeg fel iaith gyntaf

80 Yn aml bydd athrawon bro yn hyrwyddo arfer da mewn ysgolion lle addysgir Cymraeg fel iaith gyntaf a lle mai Cymraeg yw'r cyfrwng addysgu. Mewn nifer o awdurdodau, mae llawer o'r rhain yn ysgolion bach gwledig gyda dosbarthiadau oed cymysg, a lle mae gan y disgyblion gefndir ieithyddol cymhleth. Mae cydweithredu effeithiol rhwng athrawon bro a'r athrawon dosbarth yn gymorth i fodloni pob lefel gofyn.

81 Mae'r gwaith yn arbennig o effeithiol mewn sefyllfaoedd iaith gyntaf lle mae'r nodau a'r amcanion yn ymwneud yn benodol iawn â'r angen. Yn yr enghraifft ganlynol, mae AALl Sir Benfro yn cydweithredu gydag ysgolion i dargedu ysgrifennu ym Mlynyddoedd 5 a 6 o ganlyniad i unodi gwendid yn yr agwedd hon ar waith disgyblion trwy ddadansoddi canlyniadau profion a data asesu. Mae'r athrawes fro, mewn partneriaeth â'r athro dosbarth, yn canolbwyntio ar ysgrifennu disgyblion ar sail archwiliad manwl o safonau ac anghenion.

Mae'r athrawes fro yn deall prif nodweddion safonau da ac yn lledaenu arfer da yn effeithiol. Mae'r gwersi a addysgir ganddi yn dangos arfer da trwy egluro'r modd i ddatblygu medrau iaith disgyblion mewn modd dealladwy. Mewn ysgrifennu y mae prif wendidau disgyblion, ond mae'n cychwyn trwy gynnwys y dosbarth cyfan mewn trafodaeth. Mae'r disgyblion yn gwneud cyfraniadau llafar sy'n cynnwys ymadroddion, disgrifiadau a chymariaethau y bydd yr athrawes fro yn eu hysgrifennu ar y bwrdd du. Dywedir wrth y disgyblion hefyd i lunio brawddegau cyfan ar lafar cyn cychwyn unrhyw waith ysgrifenedig. Cânt eu hannog i ddefnyddio geiriaduron a thesawrysau. Mae'r athrawes fro yn cadw cofnod manwl o weithgareddau, adnoddau a'r medrau a gyflwynir ym mhob sesiwn fel bod yr athro dosbarth yn gwybod yn union beth sydd wedi'i gwblhau mewn sesiynau. O ganlyniad i'r cyfraniad hwn, mae safonau ysgrifennu disgyblion yn gwella, yn enwedig o ran ei gyfoeth. Er bod camgymeriadau iaith yn parhau i effeithio ar waith nifer fach o ddisgyblion, mae eu brwdfrydedd yn cynyddu a'u safonau'n codi.

82 Yn fwy cyffredinol, ni roddir digon o bwyslais ar unodi anghenion penodol mewn ysgolion a dosbarthiadau yn y modd hwn, mewn sefyllfaoedd iaith gyntaf na sefyllfaoedd ail iaith. Oni unodir anghenion penodol ymlaen llaw, ni all athrawon bro gael digon o effaith ar safonau.

(iii) Cydweithredu effeithiol

83 Gan fwyaf, mae athrawon bro ac athrawon yn cydweithredu'n dda. Mae athrawon bro yn cynnig cymorth arbenigol i ddisgyblion ac i'r athrawon eu hunain. Mae'r cydweithrediad rhwng athrawon bro ac athrawon dosbarth yn effeithiol pan fydd athrawon yn aros yn y dosbarth tra bydd athrawon bro'n addysgu'r disgyblion. Weithiau, mae athrawon bro ac athrawon dosbarth yn addysgu grwpiau disgyblion gwahanol mewn lleoliadau gwahanol, yn enwedig lle mae anghenion iaith cymysg. Er y bydd sesiynau gan athrawon bro yn aml yn cyfoethogi iaith disgyblion yn y sefyllfaoedd hyn, nid yw'r budd i athrawon gymaint ag y gallai fod o ran lledaenu arfer da. O ganlyniad, nid oes digon o gynnydd yng ngwaith disgyblion rhwng ymweliadau, ac nid oes digon yn cael ei wneud i unodi'r camau nesaf mewn datblygiad ieithyddol disgyblion.

84 Mae'r arfer a fabwysiedir gan athrawon bro o gadw cofnodion i'w rhannu gyda'r athro dosbarth yn fuddiol, yn enwedig lle bydd targedau, canllawiau ac awgrymiadau i athrawon ar gyfer gwaith yn y cyfnod rhwng ymweliadau. Mae'r arfer hwn yn pwysleisio rôl allweddol athrawon bro wrth hyrwyddo dilyniant a pharhad yn y gwaith mewn ysgolion.

85 Bydd athrawon bro hefyd yn ymweld â dosbarthiadau i gynorthwyo athrawon dosbarth a chydlynwyr i ddatblygu cynlluniau gwaith, deunyddiau ar gyfer gwersi ac olrhain cynnydd disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith. Roedd treialu a sefydlu system asesu sylfaenol ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yn ddatblygiad pwysig yng Nghaerdydd, er enghraifft. Mae'n annog ysgolion i hunan-arfarnu ochr yn ochr ag athrawon bro ac i osod targedau ar lefelau grŵp a dosbarth. Mae cydweithredu o'r natur hwn ar draws agweddau ysgol gyfan yn arbennig o fuddiol. Mae nifer fawr o ysgolion ail iaith yn gwerthfawrogi'r swyddogaeth hon gan athrawon bro, yn enwedig gan mai ychydig o brofiad o'r gwaith hwn sydd gan lawer o athrawon dosbarth. Weithiau, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg, nid oes digon o athrawon bro i gynghori ar gynllunio ysgol gyfan o ganlyniad i roi gormod o bwyslais ar ddarparu gwersi enghreifftiol.

Canolfannau iaith

86 Mae ansawdd addysgu athrawon bro yn y canolfannau iaith yn foddhaol o leiaf, ac mae'n dda yn bennaf.

87 Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos yr hyn sy'n cael ei wneud ar gwrs dwys pum niwrnod yr wythnos am un tymor (model 1) mewn canolfan iaith yng Ngwynedd. Roedd y dosbarth yn cynnwys hwyr-ddyfodiaid o wahanol oedrannau o gyfnodau allweddol 1 a 2. Mae'r gwaith dwys a wneir ganddynt yn cyflymu'r broses o gynorthwyo disgyblion i feistroli'r iaith a'u galluogi i integreiddio i amgylchedd yr ysgol gynradd yn well. Ar yr un pryd, mae'n cynnal datblygiad eu cynnydd mewn agweddau eraill ar y cwricwlwm.

Mae'r gwaith wedi'i seilio'n bennaf ar y cynllun ail iaith, Cynllun y Llan, a gynhyrchwyd gan athrawon bro. Yn ogystal â chyflwyno'r Gymraeg a'i diwylliant, mae'r cynllun yn ymwneud â gwahanol feysydd y cwricwlwm. Mae ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant yn dda iawn. Ceir ymdrech gyson i ddarparu profiadau uniongyrchol i ddisgyblion er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu'n ieithyddol ac yn addysgol. Defnyddir cyfrwng chwarae rôl i gymell disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Gwneir cryn ddefnydd o adnoddau amrywiol, gan gynnwys technoleg gwybodaeth, i hyrwyddo datblygiad iaith disgyblion. Rhoddir sylw da i ddarparu tasgau sy'n cyfateb i oed a datblygiad ieithyddol disgyblion. Mae disgyblion yn ymateb yn frwd. Dysgant yn naturiol ac yn gyflym, gan fagu hyder wrth fynegi'u hunain ar lafar yn Gymraeg yng nghyd-destun gwaith y dosbarth. Maent hefyd yn gwneud cynnydd addawol mewn medrau ysgrifennu a darllen. Ar yr un pryd, datblygant fedrau a gwybodaeth mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm cynradd.

88 Yn gyffredinol, mae'r holl fodelau cyrsiau gwahanol a ddarperir yn y canolfannau ar gyfer hwyr-ddyfodiaid yn gosod sylfaen addas ar gyfer trosglwyddo i ysgolion Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r profiad dwys ym model 1 yn llwyddo'n well i ddod â disgyblion i lefel hyfedredd dderbyniol ac yn eu cynorthwyo i integreiddio i'w hamgylchedd newydd yn gyflymach, tra'n diogelu'u cynnydd addysgol cyffredinol ar yr un pryd.

Cysylltiadau cynradd-uwchradd

89 Yn rhy aml, nid oes digon o ddilyniant a pharhad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd mewn addysgu a dysgu Cymraeg. Yn aml, yn y fro Gymraeg draddodiadol, nid yw'r disgyblion sy'n astudio pynciau drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn yr ysgol gynradd yn parhau i wneud hynny yn yr ysgol uwchradd.

90 Mae sawl tîm o athrawon bro yn cynorthwyo i hyrwyddo parhad gwell ym mhrofiadau disgyblion rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Yn AALl Castell-nedd a Phort Talbot, er enghraifft, mae athrawon bro yn hyrwyddo dilyniant a darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion mewn Cymraeg trwy ddulliau arloesol, gan gynnwys defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth (TG). Cafwyd cydweithredu dros gyfnod o amser rhwng pennaeth adran yr ysgol uwchradd leol, yr ysgolion cynradd sy'n bwydo a'r athrawon bro:

Y prif ddull a fabwysiadwyd yw defnyddio e-bost i greu storïau llawn dychymyg trwy wahodd yr ysgolion cynradd yn ardal y dalgylch i gyfrannu gwahanol rannau (mae hyn yn gymorth i sicrhau cysondeb yn yr iaith a addysgir i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6) ac anfon y rhain i'r ysgol uwchradd lle cânt eu defnyddio fel man cychwyn gyda Chymraeg ym Mlwyddyn 7. Mae'n syniad gwreiddiol sy'n gwella ansawdd ac effeithiolrwydd dilyniant rhwng y cyfnodau allweddol.

91 Mewn ardaloedd eraill, mae athrawon bro yn cydweithredu gydag ysgolion i gytuno gallu disgyblion mewn Cymraeg, yn enwedig mewn Cymraeg fel ail iaith lle nad oes profion statudol ym Mlwyddyn 6, er mwyn pontio'r bwlch rhwng y sector cynradd ac uwchradd. Yn AALl Ceredigion, mae'r tîm athrawon bro, mewn cydweithrediad â'r athrawon cynradd ac uwchradd, yn pennu lefel perfformiad disgyblion mewn Cymraeg ac yn darparu cwrs pontio ar eu cyfer er mwyn gwella'r parhad a'r dilyniant mewn addysgu a dysgu rhwng Blynyddoedd 6 a 7.

92 Mae rhai timau athrawon bro yn AALl Caerdydd hefyd wedi cynhyrchu pecynnau pontio defnyddiol sy'n galluogi disgyblion i weithio ar ran gyntaf aseiniad drafft yn ystod wythnosau olaf y tymor ym Mlwyddyn 6, ac sydd wedyn yn cael ei gwblhau ar gychwyn Blwyddyn 7. Mae hyn yn cynorthwyo athrawon i fesur gallu disgyblion ac yn adeiladu cyswllt rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd.

93 Mae athrawon bro yn ne Sir Benfro wedi bod yn datblygu cynllun 'pasport personol' ar draws y sir ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 6 a 7. Mae hwn yn cofnodi'r cynnydd a wneir gan bob disgybl, ac yn sicrhau bod hyn a hyn o iaith yn cael gyflwyno a'i ddysgu'n drylwyr fan lleiaf gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 cyn iddynt symud i'r sector uwchradd. Bydd disgyblion yn mynd â'r pasport gyda nhw fel bod modd i athrawon adeiladu ar y gwaith a wnaethant ym Mlwyddyn 6. Mae'r cynllun yn un newydd, ond yn ddatblygiad pwysig a allai wella dilyniant yn sylweddol.

94 Yn AALl Conwy, mae enghraifft o brosiect arloesol, yn seiliedig ar y celfyddydau, sydd wedi cynorthwyo disgyblion i symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Cynigir cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn un dalgylch ysgol uwchradd i ddod ynghyd ar gyfer gweithdai dawns, drama, cerdd a chrefft sy'n arwain at gynhyrchu sioe. Mae disgyblion hŷn yn yr ysgol uwchradd yn cynorthwyo gyda'r prosiect. Mae'r profiad yn gymorth i gynyddu hyder disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn eu hannog i barhau i ddysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3.

95 Yn gyffredinol, mae athrawon bro yn chwarae rhan allweddol mewn trafodaethau ar ddilyniant rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3, fel bod disgyblion yn gallu parhau i ddilyn rhaglen astudiaeth sy'n bodloni'u hanghenion ieithyddol yn llawn.

Hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon gan athrawon bro

96 Mae ansawdd yr hyfforddiant naill ai'n dda neu'n dda iawn.

97 Mae cyrsiau AALl i sicrhau bod athrawon cynradd di-Gymraeg yn gallu dysgu ac addysgu'r iaith yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth a safonau gwaith disgyblion yng nghyfnodau 1 a 2. Mae ansawdd y cyrsiau naill ai'n dda neu'n dda iawn. Mae'r cyrsiau'n cael effaith sylweddol ar yr athrawon, gan roi iddynt afael gwell ar yr iaith a'i diwylliant, yn ogystal â llawer iawn o hyder a medrusrwydd wrth addysgu Cymraeg. Mae'r cyrsiau'n llwyddo hefyd i feithrin ymagwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg. Parhânt i fod yn ddefnyddiol i awdurdodau nad ydynt yn gyfarwydd ag addysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd.

98 Mae athrawon bro yn rhoi cyfarwyddyd a chymorth effeithiol i'r athrawon hyn yn yr ysgolion eu hunain. Serch hynny, mae angen o hyd i ymestyn mwy o adnoddau iaith athrawon yn ogystal â'u dulliau addysgu er mwyn eu cynorthwyo i weithio'n fwy effeithiol, yn enwedig ar ben uchaf cyfnod allweddol 2.

99 Bydd athrawon bro yn bodloni anghenion hyfforddiant eraill hefyd. Er enghraifft, maent yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gynyddu ymwybyddiaeth o'r dulliau gorau o ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Yng nghlwstwr Torfaen, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd, cafodd athrawon a oedd yn dysgu Cymraeg safon hyfforddiant uchel wrth ddefnyddio adnoddau cyfrifiadur i addysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae'r un AALlau yn paratoi cyrsiau ansawdd da i gynyddu ymwybyddiaeth athrawon ail iaith o'r dulliau o ddatblygu'r dimensiwn Cymraeg mewn ysgolion cynradd. Mae cyrsiau hyfforddiant hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gynyddu ymwybyddiaeth o rôl y cydlynwyr Cymraeg mewn ysgolion. Maent yn cynorthwyo cydlynwyr i ddylanwadu ar gynllunio a dilyniant a pharhad profiad iaith disgyblion ar draws y cyfnodau allweddol.

Adnoddau dysgu ac addysgu

100 Mae timau athrawon bro yn cynhyrchu cyfoeth o ddeunyddiau i'w defnyddio yn y dosbarth, gan gynnwys pecynnau thematig, posteri, taflenni gwaith a gemau lliwgar, yn ogystal â deunyddiau darllen. Hefyd, darparant adnoddau clyweled, fel fideos a thapiau, fel modd o gynorthwyo athrawon y mae eu gafael ar y Gymraeg yn ansicr ac yn gyfyngedig. Mae'r cymhorthion hyn yn cynorthwyo disgyblion ond hefyd yn gwella safon defnydd yr athrawon eu hunain o'r iaith.

101 Bydd nifer o dimau'n gwneud defnydd da o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sy'n hyrwyddo gallu mewn Cymraeg. Mae tîm athrawon bro AALl Abertawe yn chwarae rhan weithgar wrth ddefnyddio prosiect Fabula, sy'n cael ei noddi gan y Comisiwn Ewropeaidd, i gymell disgyblion i greu a darllen storïau amlgyfrwng. Mae hyn yn hyrwyddo'u medrau cyfrifiadur yn ogystal â'u medrau iaith.

102 Mae'r rhan fwyaf o'r timau athrawon bro wedi cynhyrchu adnoddau a phecynnau dysgu, i gynorthwyo athrawon dosbarth i gynnal a datblygu gwaith rhwng eu hymweliadau. Mae'r adnoddau hyn wedi cael dylanwad arbennig mewn lleoedd fel AALlau Torfaen, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd. Darparant fframwaith i gynorthwyo athrawon gynnal y gwaith yn y dosbarth a sicrhau mesur o ddilyniant.

103 Ni fanteisiwyd i'r eithaf hyd yma ar y cyfle i rannu adnoddau rhwng AALlau, er y byddai gwneud hynny'n ysgafnhau baich gwaith athrawon bro ac yn arbed unrhyw ddyblygu diangen. Ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i'r posibilrwydd o ddefnyddio rhwydweithiau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar raddfa genedlaethol i hwyluso hyn.

104 Mae rhai o'r canolfannau lle mae athrawon bro yn gweithio yn ganolfannau adnoddau gwerthfawr lle cedwir casgliad defnyddiol o amryw adnoddau Cymraeg ar gyfer ysgolion. Yma, gall athrawon bori drwy'r deunyddiau a chael cyngor defnyddiol ar eu perthnasedd a'u defnydd.

Cyrsiau preswyl

105 Mae nifer mawr o ddisgyblion iaith gyntaf ac ail iaith, o oed cynradd i uwchradd, yn mynychu cyrsiau iaith preswyl mewn canolfannau preswyl fel Llangrannog a Glan-llyn. Bydd aelodau'r tîm athrawon bro yn helpu i gynllunio, cyflwyno a chefnogi'r cyrsiau hyn.

106 Mae statws y Gymraeg ym mhrofiad nifer fawr o ddisgyblion yn cael ei wella trwy fynychu'r cyrsiau hyn. Gallant fod yn gyfrwng pwerus i greu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Maent yn ychwanegu at waith ysgol ac yn werthfawr tu hwnt i ddisgyblion sy'n byw mewn ardaloedd lle mai ychydig iawn o gyswllt uniongyrchol a gânt â'r Gymraeg. Gall cyrsiau wneud yn iawn am ddiffyg Cymraeg yng nghartrefi a chymunedau disgyblion.

107 Mae gwybodaeth athrawon bro o'r ysgolion a'r disgyblion o gymorth mawr wrth baratoi a threfnu rhaglenni cwrs. Maent hefyd yn gyswllt da o ran parhau â gwaith y gwersyll mewn ysgolion disgyblion.

Gweithdai iaith trwy ddrama

108 Un o'r cyfraniadau pwysicaf a wneir gan athrawon bro yn y dosbarth yw annog defnyddio chwarae rôl a drama i atgyfnerthu iaith lafar disgyblion. Bydd disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio'u hystod naturiol o swyddogaethau iaith, fel trafod, holi, perswadio, cytuno neu anghytuno, ac mae hyn yn gymorth iddynt gyflawni rhai o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

109 Yn AALl Ceredigion, un datblygiad pwysig sy'n cyfoethogi ac yn ysgogi addysgu a dysgu Cymraeg yw'r cydweithredu agos rhwng y gwasanaeth athrawon bro a chwmni drama a leolir yno. Paratoir gweithdai ar y cyd ar gyfer grwpiau oed penodol yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, ar sail cynlluniau gwaith a baratoir gan athrawon bro. Mae'r pwyslais ar ddatblygu llafaredd. Mae cydweithrediad rhwng athrawon bro, yr ysgolion a'r cwmni drama yn dod â dimensiwn mynegol ychwanegol i brofiadau disgyblion. Bydd disgyblion yn llwyr ymgolli yn y gweithgaredd ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad iaith. Mae ymatebion athrawon dosbarth yn dangos bod gweithdai fel y rhain yn llwyddiannus iawn.

Argymhellion

Mae'r canlynol yn argymhellion ar gyfer gweithredu gan ysgolion, athrawon bro, AALlau a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn cynorthwyo i gynnal a gwella'r gwasanaeth a ddarperir gan athrawon bro:

(1) ymestyn cyfraniad athrawon bro i godi safonau mewn Cymraeg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, trwy:

- sicrhau bod mwy o amser ar gael ar gyfer mwy o gyswllt rhwng athrawon bro, disgyblion ac athrawon dosbarth lle mae angen hynny; a
- defnyddio athrawon bro i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, tra'n parchu dewisiadau rhieni a staff.

(2) datblygu dulliau mwy hyblyg o ddefnyddio athrawon bro i gynorthwyo ysgolion mewn modd sy'n gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd. Gall hyn gynnwys:

- targedu ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol dros dro; a
- defnyddio athrawon bro i gynghori athrawon dosbarth wrth iddynt fagu hyder a dysgu medrau wrth addysgu'r iaith yn hytrach na dibynnu'n gyfangwbl ar athrawon bro i addysgu dosbarthiadau'n uniongyrchol.

(3) coethi dulliau o arfarnu dylanwad athrawon bro ar safonau mewn ysgolion unigol o fewn AALlau er mwyn blaenoriaethu'r defnydd o adnoddau staffio'r gwasanaeth;

(4) cynorthwyo mwy o athrawon bro i hwyluso'r trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 i sicrhau bod disgyblion yn dilyn rhaglenni astudiaeth priodol mewn Cymraeg wrth iddynt drosglwyddo o un sector i'r nesaf;

(5) sefydlu mwy o gyrsiau dwys un tymor (gweler model 1 uchod) mewn canolfannau iaith er mwyn paratoi disgyblion cyfrwng Saesneg sy'n hwyr-ddyfodiaid mewn dalgylchoedd cynradd Cymraeg yn fwy effeithiol ar gyfer addysg ddwyieithog; a

(6) pharhau i gynorthwyo twf y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog trwy sefydlu rhwydwaith cenedlaethol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i rannu adnoddau ac arfer da.